

CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion cyfarfod Rhithwir Pwyllgor Cyllid y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 15fed RHAGFYR 2020.

- 1 Presennol: Cynghorwyr Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Mr Myfyr Davies, Mr Tim Owen, Mr Andrew Hughes a Mr J Alun Foulkes (Clerc).
Hefyd: Cynghorwr Sirol, Mr Bryan Owen.
- 2 Ymddiheuriad: Cynghorwraig Mrs Arianwen Owen.
- 3 Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd er mwyn medru argymellu prisedd y Cyngor ar gyfer 2021-2022.
- 4 Datganodd y Clerc diddordeb rhagfarnol pan drafodwyd cyflog y Clerc ac ni chymerodd unrhyw rhan yn y penderfyniad.
- 5 Roedd y Clerc wedi darparu cyllideb amcangyfrifedig ar gyfer 2021-2022 ac fe drafodwyd hyn yn ofalus gyda sylwadau pob un o'r aelodau.
- 6 Ar ôl ystyried popeth gan cynnwys cysoni arian yn weddill am eleni, argymellwyd y dylai Pwyllgor Llawn y Cyngor ei dderbyn a codi'r prisedd 1.74% i £11,700 am y flwyddyn ariannol (MD/AH).
- 7 Nodwyd sylwadau y Clerc y bydd rhaid trosglwyddo £16,000 i Gronfa yn enw Canolfan Bodorgan erbyn 31.3.2021 ac y bydd Cynghorydd Andrew Hughes a Cynghorydd Sirol Bryan Owen yn trefnu agor cyfrif yn y flwyddyn newydd.
- 8 Dywedodd y Clerc y bydd yn gwneud ymdrech arall yn y Flwyddyn Newydd i gysylltu gyda Archwilydd Cymru ar gyfer datrys yr atebolrwydd sy'n weddill o rhan y ffioedd archwilio am 4 blynedd rhwng 2013 a 2017.
- 9 Yn dilyn adolygiad trafodwyd yr aelodau argymhellion y Clerc i ostwng ei gyflog i £3,228 cyn TÂL yn unol â graddfa gyflog NALC. **Cytunwyd (AH/TO) ac bydd y Clerc yn mynd ati i ddarparu cytundeb newydd i'w harwyddo cyn 31.3.2021.**
- 10 Argymellwyd y dylai peidio codi prisiau claddu Mynwent Trefdraeth am eleni. (DJ/AH). Roedd angen gwaith cynnal a cadw i'r wal derfyn ac bydd angen trefnu archwiliad coed o amgylch y fynwent yn y Flwyddyn Newydd.
- 11 Argymellwyd y dylai cadw gwasanaeth a penodi Meistri I G Jones & Co, Llangefni, fel yr Archwilydd Mewnol.

12. **Trafod & Adolygu Rheolau Sefydlog** – nododd y Clerc nad oedd angen gwneud hyn eleni.
13. **Trafod & Adolygu Rheolau Cyllid** – nododd y Clerc nad oedd angen gwneud hyn eleni.
14. **Trafod & Adolygu Asesiad Risg y Cyngor** - nododd y Clerc nad oedd angen gwneud hyn eleni. Cadarnhaodd fod yr offer chwarae eisoes wedi ei ddileu oddiwrth y polisi yswiriant.
15. **Rhestr Asedau** - cadarnhaodd y Clerc fod y rhestr hon yn bresennol ac yn gywir.
16. **Cau y Cyfarfod** – diolchodd y Cadeirydd i pawb am fynychu ac i'r Clerc am ddarparu'r gyllid ac fe ddymunodd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i pob un ohonynt. Clwyd y cyfarfod am 8:00 yr hwyr.

Arwyddo.....Cadeirydd.....Dyddiad.